**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Brian Davies
Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro
Chwaraeon Cymru

29 Mehefin 2023

Annwyl Brian

Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd. Mae rhagor o fanylion am yr ymchwiliad, gan gynnwys ein cylch gorchwyl, ar gael ar ein gwefan.

Mae’r dystiolaeth a ddaeth i law hyd yma wedi amlygu pwysigrwydd annog y rhai sy’n bresennol i ymyrryd a datblygu rhaglenni ymyrryd sy’n ei gwneud yn haws iddynt wneud hynny’n ddiogel ac yn effeithiol, ac sydd hefyd yn newid agweddau a chredoau negyddol am rywedd. O ystyried y gall chwaraeon fod yn faes pwysig ar gyfer y gwaith o atal trais yn erbyn menywod a merched, byddem yn ddiolchgar pe gallech roi’ch barn am rôl ymyriadau gan y rhai sy’n bresennol o safbwynt chwaraeon. Yn ogystal â hyn, a fyddech cystal â rhoi manylion unrhyw waith penodol sy’n cael ei wneud i helpu i godi proffil y mater pwysig hwn ac i annog pobl i ymwneud mwy ag ef yn fwy cyffredinol, a hynny ar bob lefel yn y byd chwaraeon, gan gynnwys gwaith sy’n mynd rhagddo ym maes llywodraethu.

Byddem hefyd yn ddiolchgar am unrhyw sylwadau ychwanegol yr hoffech eu cynnig mewn perthynas â’n cylch gorchwyl, sydd i’w weld ar ein gwefan.

Byddem yn falch o gael eich sylwadau erbyn 22 Gorffennaf 2023 os oes modd.

Yn gywir

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Senedd Cymru
Welsh Parliament